

## Cynhaliwyd pwyllgor or Cyngor nos Fawrth 17eg o Ionawr 2017

Cynhaliwyd pwyllgor or Cyngor nos Fawrth 17eg o Ionawr 2017 am 7.00 yn y ganolfan.  
Derbyniwyd ymddiheiriad oddiwrth Dewi Owen  
Darllenwyd y cofnodion a cynigiwyd hwy yn gywir.  
Gofynnodd y Clerc am gael gwneud y cofnodion ar y cyfrifiadur au hanfon allan cyn y pwyllgor nesaf gydar agenda Cytunodd pawb i hyn

### **Materion yn codi**

Toiledau Pennal, roedd y clerch wedi cysylltu dwy waith a Sian Roberts i roi enw a chyfeiriad ein twrne sydd yn ymgymryd ar gwaith cyfreithiol ar ran y Cyngor sef Mr James Brunton Machynlleth wedi trafod ymhellach penderfynwyd anfon ebost y twrne i Sian Roberts fel y medryth gysylltu a fo yn uniongyrchol.

Cais Cynllunio NP5/75/E237C Tir ger Cefnynhafal Bach Pennal cais i gadw gwifren drydan uwchben sydd wedi ei osod Nid oedd gwrthwynebiad.

Adeiladu 1 ty arwahan Lleiniau 4a 5 Felindre Pennal dau blot wedi eu cyplysu yn un. Nid oedd gwrthwynebiad.

Canlyniad cais Cynllunio. Trosi adeiliad allanol yn 2 lety gwyliau a newidiadau allanol cysylltiedig. y rhain yn rhestredig.

### **Pont ar ddyfi**

Pont Newydd Er ein bod wedi lobio aelodau seneddol Parc C Eryri gwhanol fudiadau a Cyngor Gwynedd ag unigolion fe dderbyniwyd copi o lythyr yr oedd yr aelodau seneddol wedi eu derbyn, yn eu hysbysu mae Cynllun yr adran Briffyrdd ywr priosect a phenderfyniad Llywodraeth Cymru ywr gyffordd "T" yn hytrach na chylchfan ac yn un sydd wedi ei selio ar safonau priffyrdd. fydd yn cael eu hadeuladu. yn y man ger y Ffridd.

### **Gwaith Cynnal Gwair ar y Marian**

Talwyd £584.76 i Cyngor Gwynedd Binniau Halen Angen cael eglurhad ai edrych ar ol binniau halen o fewn y plwy neu o fewn y pentref mae Cyngorau Cymuned yn ymgymryd a Gaeaf nesaf.

Cyllideb3 mis ir cyngor wedi eu thrafod at Mawrth 31 argymellwyd fel a ganlyn Toiledau £1770.

+TAW Torri Gwair 660.

-TAW Rhoddion £250.00

Aelodaeth Un Llais Cymru £68

Gwefan £60

Cyflog Clerc a Costau £1000.00

Cyflog Gofalwr y Fynwent £250.00

Meinciau ac atgyweirio £700.00

Atgyweirio Cyffredinol £2000.00

Cylch y Marian angen eu atgyweirio £1500

CCTV £1000.00

Insiwrans £400.00

Rent y Ganlofan £150.00

Halen ir Biniaw £300

Ar y cyfanswm yma o £10,108.00

Penderfynwyd gofyn am yr un maint o arian PRECEPT £6000.00 Fe edrychir eto ar yr amcan gyllideb hon yn pwyllgor mis Mawrth. .

Presept Wedi ymgymryd ar gwaith o drafod cyllidebam y tri mis nesaf penderfynwyd cadw y prasept am y flwyddyn nesaf sef 2017/18 yr un peth.

### **Camarau C C T V**

Dal i gario ymlaen i brynnur rhain maer Cyngor .

### **Coeden ger mynediad Pantlludw yn beryglus**

Mae pryderon wedi eu gwneud ir Cyngor yn eu chylch mae yn gwyro tuag at y ffordd ac yn goeden anferth eu maint ac fe all fod yn beryglus fe fyddair clerwr yn cysylltu ar perchenog. Drych newydd i fynedfa maes parcio Cwrt penderfynwyd archebu un gan fod y fynedfa yn un beryglus. Afon Sychan Deallwyd oddiwrth Mr Aled Rees A Rhys Parry y bod gobaith eto i gael glanhaur afon arhoswn am wybodaeth pellach.

### **Y Fynwent**

Mater sensitive, gofynwyd i Mr Keneth Griffiths fynd allan or ystafell ermwyn trafod mater yn ymwneud ar teulu. Gofynwyd ir clerwr gan Mrs Fey Johnson am gael talu am plot o dir yn y fynwent eglurodd y clerwr ir Cyngor nad oedd erioed wedi cymryd taliad o flaen llaw ond eu bod wedi cadw plot yn ol eu dymuniad i unigolion yn y fynwent. Wedyn trafodwyd taclusrwydd y fynwent trafodwyd hyn tra oedd Mr Griffiths allan or ystafell gan mae ef yw gofalwr y fynwent roedd dau gynghorwr wedi bod yn y fynwent a dim wedi gweld dim oi le. Fel yr awgrymwyd. Fe ddaeth Mr Griffiths yn ol ir ystafell ac fe eglurwyd iddo bod y Cyngor yn hollol fodlon are u waith a chyflwr y fynwent.